IS-DDEDDFWRIAETH GYMREIG

# LlC 22-40

# Cyfarwyddyd Ceisiadau a Phenderfyniadau Adeilad Rhestredig (Dyletswydd i Hysbysu Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol) (Cymru) 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15(5) a (6) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Ceisiadau a Phenderfyniadau Adeilad Rhestredig (Dyletswydd i Hysbysu Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol) (Cymru) 2022 a daw i rym ar 3 Hydref 2022.

**Dehongli**

**2.** Yn y Cyfarwyddyd hwn—

ystyr "Cyfarwyddyd 2017 Rhif 26" ("*Direction 2017 No. 26*") yw Cyfarwyddyd Ceisiadau a Phenderfyniadau Adeilad Rhestredig (Dyletswydd i Hysbysu Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol) (Cymru) (2017 Rhif 26);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

---

(**1**) 1990 p. 9

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15(1) a (6), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan [erthygl 6 o] Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

### Cymhwyso

**3.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a wneir i awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â thir yng Nghymru.

### Hysbysu Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol a'r Comisiwn Brenhinol

**4.** Rhaid rhoi hysbysiad o geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig ac am y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol ar y ceisiadau hynny i Historic Buildings & Places (sef enw gweithredol the Ancient Monuments Society), the Council for British Archaeology, the Georgian Group, the Society for the Protection of Ancient Buildings, the Victorian Society, the Twentieth Century Societya Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn yr achosion a ganlyn—

(a) ar gyfer gwaith i ddymchwel adeilad rhestredig, neu

(b) ar gyfer gwaith i newid adeilad rhestredig sy'n golygu neu sy'n cynnwys dymchwel unrhyw ran o'r adeilad hwnnw.

### Dirymu

**5.** Mae Cyfarwyddyd 2017 Rhif 26 wedi ei ddirymu.

*Dawn Bowden*
Y Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, un o Weinidogion Cymru
8 Medi 2022